Tracey Burke
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

5 Gorffennaf 2019

Annwyl Mr Ramsay,

Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS – DIWEDDARIAD AM ADDASIADAU I DAI GORFFENNAF 2019

Mae'n dda gennyf roi diweddariad ar y gwaith o roi ar waith yr argymhellion sydd yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Addasiadau i Dai Gorffennaf 2018.

Er hwylustod, fe wnaeth y Pwyllgor chwe argymhelliad. Roedd Argymhelliad 1 i'w gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2018 ac fe ysgrifennais atoch ar 1 Mawrth 2019 i esbonio bod y camau gweithredu ar gyfer yr argymhelliad hwn wedi'u cwblhau.

Roedd tri argymhelliad (2, 3 a 4) i'w cwblhau erbyn mis Gorffennaf 2019 felly dyma ysgrifennu atoch chi heddiw i roi diweddariad ar yr argymhellion hynny. Fe welwch o'r tabl diweddaru sydd wedi'i atodi fod Argymhellion 2 a 4 wedi'u cwblhau. O ran Argymhelliad 3, mae llawer o waith da wedi'i wneud hyd yma ond oherwydd ei gymhlethdod a'i sensitifrwydd a'r rheidrwydd i gydweithio ac ymgynghori'n briodol, teimlwn fod angen estyn yr amser cwblhau i fis Chwefror 2020 er mwyn sicrhau bod yr argymhelliad yn cael ei fodloni'n llawn.

Rhoddwyd dyddiadau cwblhau o fis Rhagfyr 2019 ar gyfer y ddau argymhelliad sy'n weddill (5 a 6). Mae'n dda gennyf ddweud bod Argymhelliad 6 eisoes wedi'i gwblhau. Mae llawer o waith da wedi'i wneud ar Argymhelliad 5 drwy gydweithio ag aelodau Grŵp Llywio Addasiadau i Dai. Yn rhan o'r gwaith ar Argymhelliad 5 rhoddwyd ystyriaeth i welliannau posibl i'r broses o gymeradwyo Grantiau Addasiadau Ffisegol.

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

I grynhoi, mae pedwar argymhelliad o'r chwech bellach wedi'u cwblhau ac mae gwaith da yn cael ei wneud ar y ddau sy'n weddill. Byddaf yn rhoi diweddariad pellach i'r Pwyllgor am y rhain ar yr adegau priodol.

Yn gywir



Tracey Burke

Teitl yr adroddiad	**Addasiadau i Dai – Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
Diweddariad	**Gorffennaf 2019**

Rhif	Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed
1	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r data perfformiad y mae wedi'i chasglu fel rhan o'r adolygiad Galluogi erbyn mis Tachwedd 2018. Wrth gyhoeddi'r wybodaeth hon, dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir unrhyw ddiffygion yn y rownd gyntaf o wybodaeth am berfformiad a gasglwyd, er enghraifft, sefydliadau nad ydynt yn darparu gwybodaeth, a sut mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r bylchau hyn.	Cwblhawyd Tachwedd 2018 Ymatebwyd yn fy llythyr dyddiedig 1 Mawrth 2019	Cwblhawyd
2	Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i sefydlu safonau isaf ar gyfer pob addasiad, i sicrhau bod pobl anabl a phobl hŷn yn derbyn gwasanaeth o'r un safon waeth ble maent yn byw, pwy yw eu landlord ac a ydynt yn berchen ar eu cartref eu hunain ai peidio. Yn arbennig, dylent sicrhau bod y data sy'n sail i'r ymarfer hwn yn gadarn ac yn gynhwysfawr. Yn eu hymateb i Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, nododd Llywodraeth Cymru ddyddiad cwblhau, sef mis Rhagfyr 2019. O ystyried cynnydd araf yn y gorffennol, mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen mwy o frys gan Lywodraeth Cymru yn hyn o beth, ac y dylid ei gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2019. Bydd y Pwyllgor yn monitro'r ddarpariaeth er mwyn	Cwblhawyd Ebrill 19 Gwnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi safonau gwasanaeth newydd ar gyfer addasiadau i dai[1] ym mis Ebrill 2019. Mae'r Safonau Gwasanaeth hyn yn nodi lefel y gwasanaeth a ddisgwylir ar gyfer cwblhau a gosod addasiad i dŷ y gall defnyddwyr y gwasanaeth, ni waeth ble maent wedi'u lleoli'n ddaearyddol na beth fo'u deiliadaeth, ei disgwyl. Byddant yn helpu i sicrhau bod darparwyr gwasanaethau yn cwblhau addasiadau i dai mewn ffordd gyson ac yn hysbysu defnyddwyr y gwasanaeth o lefel y gwasanaeth y gallant ei disgwyl pan fyddant yn gofyn am gymorth ar gyfer addasiadau i dai. Felly, yn ein barn ni aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn a'r argymhelliad	Cwblhawyd

[1]https://llyw.cymru/addasiadau-tai-safonau-gwasanaeth

Rhif	Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed
	sicrhau bod y safonau gofynnol wedi'u sefydlu a'u lledaenu erbyn mis Gorffennaf 2019	cysylltiedig yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Caiff data a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i threfniadau monitro grantiau rheolaidd eu defnyddio fel tystiolaeth ar gynnal safonau gwasanaeth. Cyhoeddwyd yr adolygiad cyntaf o ddata[2], a amlinellwyd yn argymhelliad 1, ym mis Tachwedd 2018 a rhagwelir y caiff y diweddariad nesaf ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2019 a fydd yn ein galluogi i werthuso effaith safonau gwasanaeth, er y gallai'r newidiadau mewn canlyniadau gymryd amser i ddod i'r amlwg.	
3	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn pennu safonau clir ar gyfer nodi prawf modd ar gyfer DFGs. Derbyniodd Llywodraeth Cymru ei bod hi'n bosib ymgymryd ag addasiadau ar raddfa fach a chanolig heb greu prosesau cymeradwyo cymhleth a gor-fiwrocrataidd, ond roedd yr amrywiad mewn dulliau awdurdodau lleol wedi arwain at loteri cod post ar gyfer ymgeiswyr. Felly, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r dulliau presennol ac yn llunio canllawiau sy'n nodi'n glir y gwerth a'r math o waith addasiadau lle y dylid defnyddio'r prawf modd, a phryd y mae angen gweithredu yn ôl y safonau cymeradwyo isaf. Bydd y Pwyllgor yn monitro cynnydd o ran y gwaith hwn erbyn mis Gorffennaf 2019 fan bellaf.	Mae'r camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhelliad hefyd yn berthnasol i argymhelliad 5 yn Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, a drefnwyd i'w gwblhau erbyn mis Ebrill 2019 yn wreiddiol. Gwneir cynnydd drwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen dynodedig i ddatblygu opsiynau o ran y canllawiau y gall awdurdod tai lleol eu dilyn wrth gymhwyso prawf moddion ar gyfer addasiadau tai Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, sy'n berthnasol i'r argymhelliad hwn a'r argymhelliad a wnaed yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar addasiadau i dai. Mae'r grŵp wedi drafftio cynnig nad yw'n ffafrio'r opsiwn o gael gwared ar brawf moddion yn gyfan gwbl, ar y sail y gallai effeithio ar geisiadau am y grant mewn ffordd annheg. Mae wedi cynnig na ddylid defnyddio prawf moddion ar gyfer addasiadau	Dyddiad y targed diwygiedig Chwefror 2020 Tynnodd y gwaith cynnar sylw at gymhlethdod y dasg hon. Felly ar ôl myfyrio ar y mater, mae angen rhoi mwy o amser i gwblhau'r dasg hon er mwyn sicrhau canlyniad da.

[2] https://llyw.cymru/rhaglen-hwylusod-adansoddiad?_ga=2.196910767.2092639876.1562312792-1071553442.1546944139

Rhif	Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed
		llai cymhleth (bach a chanolig) nag ar gyfer unigolion sy'n derbyn gofal lliniarol/diwedd oes. Os bydd Grŵp Llywio Addasiadau i Dai a Gweinidogion Cymru yn derbyn yr argymhelliad, hoffai Llywodraeth Cymru brofi'r opsiynau ar gyfer polisïau yn llawn mewn ymgynghoriad ehangach cyn gwneud argymhelliad ffurfiol ar faint gofynnol y gwaith a'r math o waith addasu lle y cymhwysir prawf modd. Mae rhywfaint o waith cychwynnol wedi'i gwblhau i archwilio'r ffordd y mae awdurdodau lleol wedi datblygu newidiadau mewn ymarfer drwy ddefnyddio eu pwerau o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio 2002. Fodd bynnag, mae'r ddogfen honno yn un lefel uchel ar hyn o bryd ac nid yw'n cynnwys digon o fanylion i gyfiawnhau ei chyhoeddi. Y polisi a ffefrir yw bod y gwaith cychwynnol hwn yn cael ei ddefnyddio gyda'r gwaith ymchwil o ddadansoddi'r broses ddyrannu (cyfeirir ato yn argymhelliad 4). Mae Llywodraeth Cymru yn arwain drwy'r Grŵp Llywio Addasiadau i Dai a bydd Grwpiau Gorchwyl a Gorffen cysylltiedig yn parhau i gefnogi cynnydd yr argymhelliad hwn.	
4	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu cefnogaeth ac arweiniad ar gyfer sefydliadau darparu, i wella'r arfer o integreiddio gwasanaethau, er enghraifft drwy dimau darparu integredig. Nodwn fod yna berthynas gref rhwng presenoldeb timau darparu integredig, ac	Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd i Grŵp Gorchwyl a Gorffen Addasiadau i Dai Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau gwerth cyd-leoli gwasanaethau a chreu pwyntiau mynediad sengl ar gyfer addasiadau i dai. Cymerwyd camau ymarferol i wella'r lefel o	Cwblhawyd

Rhif	Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed
	arferion da wrth ddarparu addasiadau. Felly, rydym yn argymell, fel rhan o'i waith Galluogi, fod Llywodraeth Cymru yn nodi natur y berthynas hon a sut mae hyn wedi sicrhau gwell canlyniadau. Bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ddangos i'r Pwyllgor fod y gwaith hwn wedi'i wneud, erbyn mis Gorffennaf 2019 fan bellaf.	integreiddio a drwy gyhoeddi a hyrwyddo safonau gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau i dai. Mae'r ddogfen sydd wedi'i thargedu at awdurdodau lleol a'u partneriaid yn pwysleisio pwysigrwydd gwaith integredig rhwng gwasanaethau. Mae telerau ac amodau grant HWYLUSO i awdurdodau lleol yn gofyn i dderbynwyr geisio integreiddio gwasanaethau rhwng awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol ac asiantaethau iechyd ar lefel leol a rhanbarthol. Mae'r telerau ac amodau ar gyfer Asiantaethau Gofal a Thrwsio yn ei gwneud yn ofynnol iddynt hyrwyddo gwaith integredig rhwng awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol ac asiantaethau iechyd ar lefel leol a rhanbarthol. Mae swyddogion yn parhau i weithio gyda sefydliadau cyflawni ac awdurdodau lleol i ddarparu pwynt mynediad sengl ar gyfer addasiadau i dai. Bwriad Llywodraeth Cymru i ddechrau oedd mynd i'r afael â'r argymhelliad yn rhannol drwy gomisiynu gwaith ymchwil er mwyn adolygu systemau addasu tai yng Nghymru. Nid oedd yn bosibl bwrw ymlaen â'r ymarfer caffael hwnnw oherwydd diffyg cynigwyr. Yn dilyn y cyfarwyddyd gan y Grŵp Llywio Addasiadau i Dai, caiff ymarfer ymchwil mwy penodol ei gwblhau sy'n canolbwyntio ar werthuso'r dull o ddyrannu cyllid (i'w gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2019, yn unol â'r terfyn amser a nodwyd yn	

Rhif	Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed
		flaenorol ar gyfer y gwaith ymchwil i adolygu systemau). Bydd y dystiolaeth o'r gwaith ymchwil yn dangos pa gamau gweithredu pellach sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r bylchau yn y gwasanaethau a achosir gan integreiddio gwael. Wedi'i gwblhau	
5	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, drwy'r "Grŵp Datblygu Addasiadau Gwell" newydd yn ceisio sicrwydd bod sefydliadau darparu yn cymryd y camau angenrheidiol i gyflawni argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol. O gofio bod y tystion, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, wedi derbyn canfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol a'r angen am newid, mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth Cymru arwain y gwaith o sicrhau bod y gwendidau parhaol hyn yn cael sylw. Byddwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddangos i'r Pwyllgor fod y gwaith hwn yn mynd rhagddo, erbyn mis Rhagfyr 2019 fan bellaf.	Mae Llywodraeth Cymru wedi arwain y gwaith o fynd i'r afael â'r gwendidau hirsefydledig a nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Adolygwyd gwaith y Grŵp Llywio Addasiadau Gwell. Ailenwyd y Grŵp yn "Grŵp Llywio Addasiadau i Dai". Mae'r Cylch Gorchwyl yn nodi'n benodol fod y grŵp yn canolbwyntio ar weithredu ar argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru a bod ganddo gynllun gwaith i fynd i'r afael â phob argymhelliad. Adolygwyd aelodau o'r grŵp er mwyn sicrhau bod ei waith yn cyd-fynd â'r amcan cyflawni hwn. Mae aelodau o'r Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Gofal a Thrwsio Cymru, Tai Cymunedol Cymru, CLlLC, awdurdodau lleol, Anabledd Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Ffurfiwyd grwpiau gorchwyl a gorffen i ganolbwyntio ar glystyrau penodol o'r argymhellion a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r ddau grŵp wedi cyfarfod yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol a pharatowyd papurau drafft yn amlinellu'r dulliau a gaiff eu defnyddio i fynd i'r afael â'r argymhellion a chânt eu cyflwyno i'r Bwrdd Llywio	Rhagfyr 2019 Gwaith yn mynd rhagddo

Rhif	Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed
		ar 20 Gorffennaf. Caiff y cynigion polisi, os byddant yn cael eu cymeradwyo, eu cyflwyno i randdeiliaid.	
6	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei ddangosyddion perfformiad cenedlaethol ar gyfer casglu data yn 2019-20. Dylai'r dangosyddion gael eu llunio i ganiatáu i sefydliadau darparu werthuso eu perfformiad, llywio eu strategaeth a gwella'r ddarpariaeth gwasanaethau. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y camau diwygiedig yn: • Adlewyrchu'r safonau gofynnol lleiaf a ddatblygwyd ar gyfer addasiadau i ganiatáu gwerthusiad o effaith, llesiant a manteision ehangach buddsoddi mewn addasiadau. • Ymdrin â'r diffygion a nodwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol (paragraff 4.13); ac yn • Ymdrin ag unrhyw fylchau a nodwyd yn sgîl y gwaith o fonitro a gwerthuso blwyddyn gyntaf GALLUOGI. Bydd y Pwyllgor yn monitro cynnydd yr argymhelliad hwn, erbyn mis Rhagfyr 2019 fan bellaf.	Cwblhawyd Ebrill 19 Cyhoeddwyd templed a chanllawiau electronig newydd ar wefan Llywodraeth Cymru, a oedd hefyd yn adlewyrchu safonau newydd y gwasanaeth a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019. Mae'r broses o gasglu data yn cwmpasu'r holl ffrydiau ariannu gan gynnwys y rhai sydd wedi'u targedu at Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac awdurdodau lleol a nodwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar addasiadau i dai. Mae'r templed a'r canllawiau yn seiliedig ar brofiad o gasglu data ac mae bellach yn cynnwys adran fanylach ar foddhad cwsmeriaid gyda'r gobaith o wella ein dealltwriaeth o effaith addasiadau i dai y rhai y gwneir y gwaith ar eu cyfer. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo i gasglu a chyfuno data ar berfformiad sefydliadau cyflawni yn ystod 2018-19. Caiff hyn ei gyhoeddi cyn gynted ag y bydd yr ymarfer wedi'i gwblhau ac mae'n ymwneud ag Argymhelliad 9 yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.	Cwblhawyd